**Leighton Andrews AC / AM**
**Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Minister for Public Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Christine Chapman AC
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd

6 Tachwedd 2014

Annwyl Christine,

Ar ôl imi fynychu cyfarfod y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar 9 Hydref, ysgrifennoch ataf ar 24 Hydref yn gofyn am ragor o wybodaeth. Caiff yr wybodaeth hon ei chynnwys isod ac mae'n ategu'r wybodaeth rwyf eisoes wedi'i rhoi i chi yn fy llythyr dyddiedig 23 Hydref.

**Blaenoriaethau cyffredinol a gwariant ataliol**

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiad llawn ac integredig o effaith y gyllideb ddrafft. Mae hyn yn cynnwys yr effeithiau ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig, plant a'r Gymraeg. Mae pob Adran yn cyfrannu at yr asesiad hwnnw, a chafodd ei gyhoeddi fel rhan o ddogfen y Gyllideb Ddrafft ac mae'n cefnogi proses o wneud penderfyniadau am y Gyllideb Ddrafft.

Er 2010, rydym wedi gweld Cyllideb Cymru yn gostwng dro ar ôl tro o ganlyniad i fesurau cyni Llywodraeth y DU. Yn anochel, mae gostyngiadau o'r fath yn golygu dewisiadau anodd.

Cafodd Llywodraeth Leol ei hamddiffyn rhag y toriadau gwaethaf ym mlynyddoedd cynnar y cyfnod hwn o adolygu gwariant. O'r cychwyn, eglurwyd bod hyn yn rhoi amser ac adnoddau iddynt i baratoi ar gyfer gostyngiadau mwy sylweddol na ellid eu hosgoi.

Wrth ei hamddiffyn yn y ffordd hon, galluogwyd Llywodraeth Leol i fuddsoddi yn y math o newid sylweddol a fyddai'n ei rhoi yn y sefyllfa orau i wynebu heriau ariannol.

Mae gan Lywodraeth Leol hyblygrwydd sylweddol o ran y modd yr aiff ati i gynllunio a rheoli ei hadnoddau. Yn arbennig, mae ganddi'r gallu i godi arian drwy'r dreth gyngor. Nid yw wedi gweld y dreth gyngor yn cael ei rhewi, na chyfyngiadau eraill fel sydd wedi digwydd mewn awdurdodau yn Lloegr.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Leighton.Andrews@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Er gwaetha'r gostyngiad o 3.4% mewn Grant Cynnal Refeniw (RSG) eleni (2014-15), yn gyffredinol mae Awdurdodau wedi cyllidebu er mwyn cynyddu eu gwariant refeniw gros o 0.2%.

O fewn hyn, rydym wedi ceisio lleihau'r effaith ar awdurdodau lleol ac amddiffyn gwasanaethau'r rheng flaen er mwyn cyfyngu yn y pen draw ar yr effaith ar gydraddoldeb ar lefel leol.

Mae hyn wedi golygu adolygu ein rhaglenni eraill mewn modd beirniadol, hwyluso'r broses o gyflwyno grantiau penodol i RSG er mwyn sicrhau mwy o hyblygrwydd, lleihau biwrocratiaeth drwy gynlluniau integredig unigol, sicrhau bod cyfrifoldebau newydd awdurdodau lleol yn cael eu hariannu'n briodol, gan gynnwys y rheini sy'n deillio o'r rhaglen ddeddfwriaethol, a darparu cymorth er mwyn trawsnewid a gwella gwasanaethau.

Fel rhan o'r broses, edrychwyd ar bob llinell gyllideb yn y Prif Grŵp Gwariant (MEG). Mae rhai cyllidebau wedi cael eu hamddiffyn gan fod ganddynt fanteision ataliol amlwg. Er enghraifft, rydym yn cadw'r buddsoddiad o £4.9m mewn amryw o raglenni ataliol a deddfwriaeth i leihau ymddygiadau peryglus, fel smygu a chamddefnyddio alcohol, gan helpu pobl i wneud dewisiadau mwy positif am eu ffordd o fyw. Mae'r buddsoddiad ychwanegol o £10m mewn gwasanaethau cymdeithasol hefyd yn hanfodol o ran gwariant ataliol, yn arbennig wrth leihau pwysau ar wasanaethau iechyd.

Mae'r gyllideb ar gyfer atal Trais Domestig wedi cynyddu ac mae'r gyllideb ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid wedi cael ei chadw ar yr un lefel, sy'n arwydd o'n hymrwymiad cadarn i amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Rydym wedi cadw cyllid ar gyfer 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol gan ei fod yn un o ymrwymiadau allweddol y Rhaglen Lywodraethu.

Mae'r Arolygiaethau wedi cael setliad ariannol gwastad gan fod ganddynt rolau hollbwysig, yn arbennig wrth ymateb i Adroddiad Francis a'r gofynion deddfwriaethol.

**Rhag-Gynllunio**

Cyhoeddwyd dangosyddion ar gyfer 2015-16 ochr yn ochr â setliad 2014-15 ym mis Hydref 2013. Rydym yn pwysleisio bob tro mai ffigurau dangosol yw'r rhain. Dywedwyd wrth Lywodraeth Leol o'r cychwyn y byddai'r ffigurau hyn yn destun newid. Ysgrifennodd fy rhagflaenydd, Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth at bob awdurdod lleol ym mis Mehefin i roi gwybodaeth fanylach cyn gynted ag y bo modd.

Hoffwn ychwanegu, er mai'r setliad sy'n darparu elfen unigol fwyaf y cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol, nid dyma'r unig ran. Ar gyfer 2014-15 er enghraifft, mae'r setliad wedi darparu £4.3 biliwn o gyllid refeniw cyffredinol ar gyfer Llywodraeth Leol. Mae Awdurdodau wedi cyllido i wario £7.3 biliwn mewn gwariant refeniw gros. Caiff y gwahaniaeth ei ariannu drwy grantiau gan Lywodraeth Cymru a chyrff eraill, o'r Dreth Gyngor, o gronfeydd wrth gefn, ac o incwm arall. Bydd awdurdodau hefyd yn ariannu gwariant pellach, yn ychwanegol at y £7.3 biliwn, drwy ffioedd, taliadau ac incwm lleol arall.

Felly, o safbwynt llunio cynlluniau ariannol, dim ond un o'r ffactorau y mae angen i Awdurdodau eu hystyried yw ffigur y setliad. Yn ogystal â chynllunio ar gyfer amrywioldeb ym mhob un o'r ffrydiau incwm hyn, a'r graddau y gall yr Awdurdodau eu hunain eu rheoli, mae angen i bob Awdurdod ragweld, cynllunio a rheoli'r galw am wasanaethau, ac ystyried i ba raddau y bydd angen iddo ailgynllunio gwasanaethau o bosibl, er mwyn cyd-fynd â'r cyllid sydd ar gael. Mae angen i'w cynlluniau ystyried pob ansicrwydd a gwybodaeth sy'n newid, blaenoriaethau ac amgylchiadau lleol, a chyfleoedd, heriau a ffactorau eraill wrth iddynt ddod i'r amlwg.

Mae hyn yn golygu paratoi ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd. Er fy mod yn gwerthfawrogi bod hyn yn gymhleth ac yn heriol, nid wyf yn cytuno bod newidiadau i ffigurau dangosol y setliad yn golygu bod gwneud cynlluniau ariannol cadarn yn amhosibl.

**Trefniadau ariannol i gymell uno gwirfoddol rhwng Awdurdodau Lleol**

Fel yr wyf wedi egluro, mae gan Awdurdodau Lleol tan 28 Tachwedd i fynegi diddordeb, ac rwy'n edrych ymlaen at gael eu cynigion. Hyd nes inni gael y mynegiadau o ddiddordeb, ni fyddai'n ddoeth llunio barn am y cymorth sydd ar gael ar gyfer y broses. Mae'n rhaid i unrhyw gynnig fod yn seiliedig ar ymrwymiad ar y cyd i wella gwasanaethau cyhoeddus ac ymgysylltu'n well â dinasyddion lleol i ddatblygu'r gwasanaethau hynny. Caiff pob cynnig ei asesu ar ei rinweddau a byddwn yn darparu cymorth fel y bo'n briodol.

O ran y cymhellion sydd ar gael i gefnogi Awdurdodau Lleol fel rhan o'r broses uno, mae rhan 8 o'r Prosbectws Uno'n Wirfoddol yn amlinellu enghreifftiau o'r mathau o gymorth a allai fod ar gael, gan gynnwys:

- darparu cyngor arbenigol ar drawsnewid gwasanaethau, gweithredu modelau cyflenwi newydd, ac integreiddio gwasanaethau, gan ganolbwyntio ar atal, o fewn yr Awdurdodau a gyda phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus;
- darparu cyngor arbenigol ar faterion yn ymwneud â gwasanaethau, fel gwahaniaethau mewn modelau cyflawni allanol, mewnol neu rai a drosglwyddwyd fel arall.
- darparu cyngor arbenigol a gallu i werthuso, cynllunio a gweithredu newid sefydliadol drwy uno;
- darparu cyngor arbenigol ar Ddatblygu Sefydliadol;
- darparu cyngor arbenigol a chymorth ar faterion caffael a chontractol;
- help ar gyfer datblygu trefniadau cyfansoddiadol a chraffu;
- cyngor ar lunio fframweithiau canlyniadau a pherfformiad, gan gynnwys sefydlu llinellau sylfaen ar gyfer y gwelliannau pwysicaf ar lefel gwasanaethau y mae'r Awdurdod sydd wedi uno yn dymuno eu gwneud o bosibl;
- cymorth ar gyfer datblygu arweinyddiaeth a gallu;
- cyngor ar ddatblygu cynlluniau rheoli ariannol a rheoli asedau;
- cyngor ar gynlluniau busnes integredig.

Bydd angen cytuno ar yr union becyn cymorth ym mhob achos unigol ac rydym wedi gofyn i Awdurdodau ddangos, wrth fynegi diddordeb, pa gymorth, os o gwbl, allai fod ei angen a sut y gellid ei ddefnyddio orau i wireddu eu gweledigaeth ac elwa ar y manteision cyn gynted â phosibl ar gyfer Awdurdod sydd newydd uno.

**Cynnal partneriaethau llwyddiannus a gweithgareddau cydweithredol**

Gofynnoch am ragor o fanylion am sut rwy'n rhagweld y byddai partneriaethau llwyddiannus a gweithgareddau cydweithredol sy'n bodoli y tu allan i'r map arfaethedig o awdurdodau wedi'u huno, yn cael eu cynnal yn ymarferol.

Mae gweithio ar y cyd wedi parhau i ddatblygu yn y rhan fwyaf o ardaloedd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, ac mae'n cynnwys gweithio mewn partneriaeth ar draws y sector cyhoeddus, yn ogystal. Mae cyfeiriad polisïau a chyllid wedi cefnogi'r dull hwn. Rwy'n rhagweld y byddai Awdurdodau newydd sydd wedi uno yn parhau i weithio ar y cyd ac yn edrych ymhellach ar gyfleoedd i sefydlu partneriaethau, gan ystyried ein cynlluniau ar gyfer uno Awdurdodau Lleol.

Byddai angen i Awdurdodau sy'n dymuno cynnal partneriaethau llwyddiannus a gweithgareddau ar y cyd y tu allan i'r map arfaethedig, ystyried a ydynt yn dangos:

- bod y trefniadau'n llwyddiannus ac yn sicrhau canlyniadau;
- nad ydynt yn gor-gymhlethu ac yn achosi dryswch ar drefniadau gweinyddol a phartneriaethau presennol ac yn y dyfodol;
- maent yn darparu manteision gwell neu fanteision cystal o gymharu â'r rheini y gellid eu darparu o fewn yr Awdurdod newydd sydd wedi uno;
- bod cyfle i ymestyn y trefniadau at bartneriaid eraill / yn ddaearyddol.

**Y Dreth Gyngor**

Caiff £244 miliwn ei gynnwys yn y Setliad Llywodraeth Leol ar gyfer 2015-16 ar gyfer cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor, yn hytrach na £22 miliwn fel yr awgrymwyd yn eich llythyr.

Mae'r trefniadau cyllido yn parhau yn yr un modd â 2014-15. Mae ein rheoliadau yn cynnwys gostyngiadau i aelwydydd ar eu biliau treth gyngor. Mae'r cyllid yn disodli incwm y dreth gyngor y byddai awdurdodau fel arall yn ei gasglu gan aelwydydd sy'n gymwys i gael gostyngiad.

Mae'r trefniadau cyllid yn adlewyrchu'r gydberchnogaeth. Cafodd cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor eu datblygu ar y cyd â Llywodraeth Leol. Mae unrhyw fwlch rhwng y cyllid a ddarperir yn y Setliad a swm gwirioneddol y gostyngiadau i filiau'r dreth gyngor bron yn hollol ddibynnol ar benderfyniadau lleol am gynnydd yn y dreth gyngor. Mae Llywodraeth Cymru wedi egluro na ellid disgwyl iddi dalu am holl gostau penderfyniadau lleol fel hyn, ac mae angen i awdurdodau ystyried hyn wrth bennu eu cyllidebau a lefelau'r dreth gyngor. Wrth gyfateb lefel y cyllid a ddarparwyd yn y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru yn dal i ddarparu mwyafrif y cyllid sy'n ofynnol i redeg cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor yn 2015-16.

Efallai y bydd y Pwyllgor hefyd yn dymuno nodi bod cyllid ar gyfer cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor, yn wahanol i system flaenorol budd-dal y dreth gyngor, yn cael ei ddarparu i awdurdodau lleol o flaen llaw, gan ddileu'r angen am broses hawlio gymhleth a beichus. Hefyd, drwy barhau i roi'r hawl iddynt gael cymorth y Dreth Gyngor, mae Awdurdodau Lleol yng Nghymru wedi cael eu hamddiffyn rhag y costau ychwanegol a wynebir yn Lloegr, fel cynnydd mewn costau casglu a gorfodi, a chynnydd mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor, lle bu'n rhaid i Awdurdodau Lleol lunio eu cynlluniau eu hunain, ac mae'n rhaid i 70% o deuluoedd oedran gweithio yn Lloegr, a arferai fod yn gymwys am ostyngiad llawn, dalu rhywfaint o'r Dreth Gyngor.

Yn gywir

Leighton Andrews

**Leighton Andrews AC / AM**
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Public Services